Ffilterau jwg

Weithiau bydd cwsmeriaid yn defnyddio ffilterau jwg am eu bod yn credu byddant yn gwella blas dŵr yfed. Gall ffilterau fel hyn achosi problemau os na fyddwch yn eu defnyddio'n iawn neu ddim yn eu cadw'n lân, felly cofiwch ddilyn cyfarwyddiadau manwl y gwneuthurwr.

Tyfiant bacteriolegol / alga

Byddwn yn diogelu dŵr wrth ei drin a diheintio mewn gweithfeydd trin, gan ychwanegu lefelau bach o glorin er atal tyfiant micro-organebau megis bacteria ac alga. Dyfeisiwyd ffilterau jwg er mwyn tynnu clorin o ddŵr yfed, sy'n golygu fod modd halogi dŵr ffilter. Os yn methu dilyn y cyfarwyddiadau, efallai byddwch yn gweld tyfiant bacteria neu alga yn y dŵr, ar ochr y jwg ac o fewn y ffilter. Os bydd dŵr ffilter yng ngolau'r haul, bydd yn hyrwyddo tyfiant alga ac efallai bydd yn troi'n wyrdd neu lysnafedd yn ffurfio ar ochrau'r jwg. Felly, byddwn yn cynghori pawb i gadw dŵr ffilter mewn oergell a'i ddefnyddio o fewn cyfnod byr.

Pethau i'w cofio

- Rhedeg y tap am ychydig cyn llenwi'r jwg gyda dŵr oer
- Osgoi gadael dŵr ffilter yng ngolau haul dros amser
- Rhoi dŵr ffilter yn syth yn yr oergell a'i ddefnyddio o fewn 24 awr
- Golchi'r jwg yn rheolaidd gyda dŵr sebon poeth, ond nid y ffilter ei hun
- Newid y ffilter yn rheolaidd yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Gronynnau du/crwn

Ar adegau bydd cwsmeriaid yn sôn am smotiau bach du yn eu ffilterau jwg. Mae cetris ffilterau'n llawn o'r gronynnau hyn, oherwydd dyna beth sy'n tynnu clorin o'r dŵr. Os yn ymddangos yn y dŵr, bydd nam ar y getrisen ac angen gosod un newydd.

Gwybodaeth bellach?

Galwch ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am gynnal safonau uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan: **www.dwi.gov.uk**